## IS-DDEDDF 2: UMCA

Mae'r is-ddeddf hon yn amlinellu'r berthynas barchus a chyd-fuddiol rhwng Undeb Aberystwyth ac Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA).

### 1. Y Berthynas

1.1 Bydd UMCA ac Undeb Aberystwyth yn cyd-weithio'n agos er budd myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth.

1.2 Bydd UMCA yn gweithredu gyda'r ymreolaeth mwyaf posib hyd at ddibenion gweithgareddau a chynrychiolaeth myfyrwyr Cymraeg, er ei bod yn rhan o Undeb Aberystwyth yn gyfreithiol.

1.3 Yn feunyddiol, caiff UMCA ei lywodraethu gan Bwyllgor Gwaith UMCA a phrosesau mewnol ei chyfansoddiad. Dylai Undeb Aber gynorthwyo â llywodraethant UMCA I'r graddau lleiaf posib a dim ond pan fo cyfrifoldeb cyfreithiol arnynt hwy.

### 2. Cysylltiad UMCA gydag Undeb Aberystwyth

2.1 Bydd gan UMCA ddwy sedd fel Cynrychiolwyr UMCA ar Senedd Undeb Aberystwyth.

2.2 Dylai cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith UMCA a staff cefnogol Undeb Aberystwyth gyfarfod ar ddechrau bob tymor i drafod gweithgareddau'r flwyddyn.

2.3 Bydd Undeb Aberystwyth yn darparu adnoddau ar gyfer digwyddiadau rheolaidd a gynhelir gan UMCA (e.e. Sŵn, Y Ddawns Ryng-golegol, Yr Eisteddfod Ryng-golegol, Ffeiriau'r Glas).

### 3. Amcanion UMCA o fewn Undeb Aberystwyth

3.1 Amcanion UMCA yw:

> 3.1.1 Hyrwyddo a diogelu buddiannau academaidd, ieithyddol, gwleidyddol, diwylliannol, cymdeithasol a llesiant myfyrwyr Cymraeg.
>
> 3.1.2 Darparu cymorth a chyfarwyddyd cymunedol gan gyfoedion i fyfyrwyr Cymraeg.
>
> 3.1.4 Bod yn gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr Cymraeg a Phrifysgol Aberystwyth ac unrhyw gorff allanol arall.

**4. Hawliau Cyfartal**

4.1 Mae UMCA yn ymrwymo i gyfleoedd cyfartal.

4.2 Bydd UMCA yn undeb agored ar gyfer unrhyw fyfyriwr sy'n dymuno byw drwy'r Gymraeg heb unrhyw ragfarn ar sail hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, gallu iaith, ffydd, oedran, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol nag unrhyw nodwedd warchodedig na phersonol arall.

**5.Cyllid**

5.1 Bydd arian UMCA yn cael ei gadw mewn is-gyfrif ar wahan o fewn Undeb Aberystwyth.

5.2 Ni fydd Undeb Aberystwyth yn gosod unrhyw reolau ychwanegol ar wariant UMCA tu hwnt i beth sy'n gyfreithiol ofynnol.

5.2 Cyfrifoldeb Llywydd a Thrysorydd UMCA yw goruchwylio gwariant a chyllid UMCA.

5.3 Bydd Llywydd a Thrysorydd UMCA yn cydweithio gydag adran gyllid Undeb Aberystwyth i fonitro'r sefyllfa ariannol ac ymgynghori ar faterion ariannol.

5.5 Er na fydd Undeb Aberystwyth yn rhoi arian bloc i UMCA, bydd yn cyflogi Llywydd UMCA fel un o'u swyddogion sabothol llawn amser er mwyn gweithredu'r cyfansoddiad hwn.

5.6 Bydd Llywydd UMCA hefyd yn gallu hawlio arian gan Gronfa Ymgyrchoedd Undeb Aberystwyth er mwyn cefnogi ymgyrchoedd.

**6.Llywydd UMCA**

6.1 Bydd rôl Llywydd UMCA yn swydd sabothol yn Undeb Aberystwyth.

6.2 Bydd Llywydd UMCA yn cael ei ethol yn ganolog drwy system etholiadau Undeb Aberystwyth gydag ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi yn gyhoeddus yn dilyn y broses cymeradwyaeth UMCA.

6.3 Er mwyn sefyll ar gyfer rôl Llywydd UMCA, rhaid i unigolion gydymffurfio â'r meini prawf a amlinellir yn Is-Ddeddf 1: Etholiadau, sef:

6.3.1 fod yn aelod ymrwymedig o UMCA yn ystod y flwyddyn cyn yr etholiad.

6.3.2 fod yn rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gydymffurfio ag o leiaf un o'r amodau canlynol:

a) Maent wedi astudio Cymraeg iaith gyntaf hyd lefel TGAU neu Safon Uwch.
b) Maent yn meddu ar 'Dystysgrif Sgiliau Iaith'.

c) Caiff o leiaf un rhan o dair o'u gradd israddedig ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
d) Maent yn derbyn ysgoloriaeth lawn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

6.4 Os na fydd yr ymgeisydd yn cydymffurfio ag un o'r amodau hynny, cynhelir prawf arall o'u gallu yn yr iaith.

6.5 Dylai'r Llywydd hefyd ddirprwyo unrhyw waith i'r Pwyllgor Gwaith lle y gwelai'n briodol.

6.6 Llywydd UMCA fydd prif cyswllt aelodau UMCA i Undeb Aberystwyth.

6.7 Er mwyn cynnig pleidlais o ddiffyg hyder yn Llywydd UMCA, rhaid iddo gael ei gynnig o dan bolisïau Undeb Aberystwyth.

6.8 Os bydd Llywydd UMCA yn cael ei ddiswyddo gan Undeb Aberystwyth neu'n gadael y rôl yn fuan, bydd Pwyllgor Craidd UMCA yn cymryd drosodd swyddogaethau'r Llywydd, gyda'r is-lywydd yn arwain dros dro, hyd nes bod UMCA ac Undeb Aberystwyth yn cytuno ar gamau priodol ymlaen.

6.9 Bydd Dogfen Drosglwyddo UMCA yn cael ei basio ymlaen yn flynyddol i'r Llywydd nesaf fel arweiniad i'r Llywydd newydd.

**6.10 Cymeradwyaeth**

6.10.1 Gan fod Llywydd UMCA yn cynrychioli UMCA yn ogystal ag Undeb Aber, ceir gweithdrefn gymeradwyo UMCA ar gyfer Ymgeiswyr ar gyfer Llywydd UMCA.

6.10.2 Daw y cyfnod sefyll am y rôl hon i ben yr un pryd â phob rôl Swyddog Llawn Amser arall. Bydd Dirprwy Swyddog Etholiadau Undeb Aberystwyth yn darparu rhestr o ymgeiswyr i Lywydd UMCA (neu enwebedig os bydd gwrthdaro buddiannau).

6.10.3 Bydd y Pwyllgor Craidd (enwau'r rolau) yn cwrdd ag ymgeiswyr ar yr un diwrnod ag y daw yr enwebu i ben a chyn briffio'r ymgeiswyr. Diben hyn yw sicrhau eu bod yn bodloni y meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn y gymhwysedd etholiadol yn Is-ddeddf yr Etholiadau ac yn deall y gwerthoedd wrth galon UMCA a'i aelodau. Er tegwch, bydd pob ymgeisydd yn wynebu'r un cwestiynau ag yr amlinellir yn Is-Deddf Etholiadau'r Undeb sydd i'w cael yn rhan 6.3 o'r Is-ddeddf UMCA hon.

6.10.4 Apeliadau: Lle bod Pwyllgor Craidd UMCA wedi penderfynu fod ymgeisydd yn anghymwys i sefyll am swydd Llywydd UMCA, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i wneud apêl wrth Ddirprwy Swyddog Etholiadau Undeb Aber.

6.10.5 I gyflwyno apêl, mae'n rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen apeliadau etholiadau a geir ar wefan Undeb Aberystwyth, a'i chyflwyno cyn 12 yh y diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn ystyried seiliau a chynnwys yr apêl ac

ailasesu cymhwysedd yr ymgeisydd yn erbyn meini prawf cymhwysedd y rôl. Os caiff yr apêl ei chynnal, caniateir i'r ymgeisydd sefyll yn yr etholiadau.

6.10.6 Ni chyhoeddir ymgeiswyr ar gyfer Llywydd UMCA nes fod pob apêl wedi'i drin.

6.10.7 Os bydd aelod o'r Pwyllgor Craidd yn sefyll am swydd Llywydd UMCA, ni chaiff fod ynghlwm ag asesu cymhwyster unrhyw ymgeiswyr neu fynychu'r cyfarfod cymhwysedd.

6.10.8 Mae'n rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor Craidd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau cyn y broses wirio gymhwysedd. Mae'n rhaid cymryd y datganiadau hyn i ystyriaeth wrth benderfynu cymhwysedd ymgeisydd a'u cadw ar gyfer y dyfodol os digwydd i benderfyniad y Pwyllgor Craidd gael ei apelio neu ei wrthdroi.

## 7 Pwyllgorau Llywydd UMCA

7.1 Bydd y Llywydd yn eistedd ar nifer o bwyllgorau o fewn y brifysgol a all amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Bydd sedd Llywydd UMCA sedd ar y pwyllgorau canlynol yn hanfodol bwysig:

a) Cyngor y Brifysgol
b) Senedd y Brifysgol
c) Pwyllgor Llywodraethant a Diwylliant y Brifysgol
d) Grŵp Gweithredol y Gymraeg
e) Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg
f) Pwyllgor Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg

7.2 Rôl y Llywydd yw bod y llais dros aelodau UMCA yn y pwyllgorau hyn.

## 8 Diwygio'r Is-Ddeddf hon

8.1 Dim ond Cyf Cyff UMCA neu Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aber a gaiff ddiwygio'r Is-Ddeddf hon (a dylid ceisio ei diwygio a'i chymeradwyo trwy Gyf Cyff UMCA oni bai fod angen dybryd). Mae hyn yn adlewyrchu statws cyfansoddiadol unigryw UMCA o fewn Undeb y Myfyrwyr ac yn sicrhau na chaiff yr Is-Ddeddf ei newid gan fyfyrwyr nad ydynt yn aelodau o UMCA.